Town Clerk:
Ms C.A. Paterson

Technical Officer:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824413

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym Mhrif Siambr Dinefwr yn Adeiladau'r Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo ar ddydd Mawrth 15fed Gorffennaf 2003 am 7.30pm.

Presennol: Cynghorwyr: Cyng. D.A. Jones (Maer), Cyng. S. Burge, Cyng. G. Vaughan Jones (Dirprwy Faer), Cyng K. Day, Cyng G. Price, Cyng C. Jenkins, Cyng I. Gwyn, Cyng R. Bellamy.

Arall: Colette Paterson (Clerc y Dref), Sgt N. Jones (Sarsiant Heddlu Llandeilo).

5811: Ymddiheuriadau: Cyng. D. Williams, Cyng C. Cooper, Cyng R. Davies

5812: Cofnodion o Gyfarfod blaenorol o'r Cyngor Llawn (17eg Mehefin 2003).

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r Cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Jenkins. Pawb yn cytuno.

5813: Adroddiad yr Heddlu: Dywedodd Sarsiant Jones yn ychwanegol i'r drafodaeth yn y Cyngor Llawn diwethaf, fod yna adroddiad wedi dod i law am fenyw yn cael ei tharo gan ddrych ar ochr car yn Stryd Rhosmaen. Roedd llythyr a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Sir I. Jones oddi wrth Sur Essex yn y Cynulliad yn awgrymu y dylai'r gwaith o reoli traffig ar y stryd gael ei ddychwelyd yn ôl i lefel leol, h.y. Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir. Cyfeiriodd y Cyng. Jenkins at ddigwyddiad pan wnaeth carreg fawr syrthio oddi ar lori fawr yn Stryd Rhosmaen gan wneud difrod i gar. Tra bod cyfyngiadau cyflymder yn bodoli mae angen ystyried opsiynau eraill, dulliau o arafu traffig, goleuadau traffig, a chyfyngiadau pwysau ar y bont.

Angen trefnu cyfarfod safle (Ar gyfer Medi/Hydref wedi'r gwyliau.) rhwng y Cyngor, Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir a chynrychiolaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol. Clerc y Dref i lunio llythyr.

Cododd y Cyng. Vaughan Jones y mater o fân fandaliaeth yn ac o amgylch y Maes Parcio a'i fod wedi derbyn cwynion gan drigolion. Sarsiant Jones i ymchwilio. Awgrymu gosod camera C.C.T.V.

Diolchodd y Cyngor i'r Sarsiant Jones a gadewodd y Cyfarfod.

5814: Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol; wnaeth y Cyng. Bellamy gyflwyno manylion manwl ar gyfer dylunio gwefan.

I'w anfon allan am ddyfynbrisiau. Wedi'u derbyn bydd y Cyngor yn edrych ar nodweddion y wefan. Bydd y cyngor yn edrych i weld y grantiau sydd ar gael er mwyn ariannu sefydlu'r wefan. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. R. Bellamy.

5815: Llwybr y Dref: Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Maer, y Cyng. Jenkins a Mike Williams a Chyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol. Mae'r syniad o gael Llwybr Tref ynghyd â phaneli gwybodaeth i'r cyhoedd a thywys lyfrau wedi'i drafod ac fe'i cefnogir gan bob mudiad.

Y cam nesaf yw cynhyrchu Archwiliad Treftadaeth. Bydd grantiau'r Cyngor Sir hyd at 80% ar gael i dalu am hyn. Yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol i roi pris am hyn. .

Plac Pres: Wnaeth y Maer sôn fod yna ddau blac yn cyfeirio at Neuadd y Dref yn y Cyntedd. Gofynnodd a fyddent yn gallu cael eu symud i'r tu allan? Nododd y Cyng Vaughan Jones fod disgwyl i hwn fod yn ddwyieithog yn unol â'u polisi dwyieithog.

Cynigiodd y Cyng. K. Day fod Plac Dwyieithog newydd yn cael ei osod y tu allan. Y Cyng. Jones i gydweithio gyda'r Cyng. Vaughan Jones a Dewis mewn perthynas â'r cyfieithu.

C n yn Baeddu: Mae'r cwynion yngl n â Ch n yn Baeddu yn parhau. Mae'r Cyng. Price wedi bod yn ystyried lleoliadau ar gyfer lle y gellir gosod biniau.

Adroddiad ar welliannau posib i'r cyfleusterau ar gyfer c n sy'n baeddu i'w rhoi i iechyd yr amgylchedd.

Prosiect Ffordd yr Orsaf: Mae'r Cyng. I. Jones wedi ysgrifennu at y Rhwydwaith Rheilffordd ac yn aros i gael ateb.

Gerddi'r Cilgant: Mae T. J. Lloyd wedi gwrthod gwerthu ei ardd. Mae gobaith o hyd o ran TR. Beynon.

5816: Cyllid

Derbyniwyd cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 2il Gorffennaf 2003. Derbyniwyd yr argymhellion gan y Cyngor Llawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Jenkins.

Yr Archwiliad. Awgrymodd yr archwiliwr mewnol Mr Towns fod y rhaglen a gyflwynwyd ar gyfer ei Archwilio ddim yn bosibl oherwydd Gwyliau Awst a'r ffaith ni fyddai'n bosib cymeradwyo diwygiadau i'r cyfrifon a'r cyfrifon terfynol eu hunain tan gyfarfod mis Medi o'r Cyngor Llawn.

Y clerc i gael gopïau o anfonebau oddi wrth CT Fabrications a Gelli Plant ar gyfer gwneud gwaith tocio, gan ni ellir eu cyflwyno heb TAW. Y Clerc i ofyn am gopïau o'r fantolen oddi wrth PWLB mewn perthynas â'r taliadau a wneir i'r benthyciad i brynu Neuadd y Sir.

Argymhelliad yr Archwilwyr Mewnol yw bod y Clerc yn ysgrifennu at 'HLB Av Auditors' gyda chais i newid dyddiad yr Archwiliad, i ganiatáu ar gyfer cadarnhad yng nghyfarfod ar y 15fed Medi 2003.

Cynigiwyd bod y Cyngor Llawn yn derbyn Argymhelliad yr Archwiliwr Mewnol yn ffurfiol. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Jenkins. Cyfeiriwyd y cyfrifon wedi'u diwygio i'r Cyfarfod Cyllid Medi 3ydd 2003

5817: Cynllunio a Dibenion Cyffredinol

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 2il Gorffennaf 2003, ac mae'r argymhellion felly yn cael eu derbyn gan y Cyngor Llawn. Cynigiwyd gan y Cyng. Day, eiliwyd gan y Cyng. Burge.

Wnaeth y Cyng. Vaughan Jones gyfeirio at yr angen i ddatblygu rhyw fath o strategaeth gynllunio.

Y Pwyllgor Cynllunio i drafod gweithdrefnau'r broses gynllunio. Gwahodd Kevin Philips i fynychu'r Cyfarfod Cynllunio ar y 3ydd o Fedi mewn ymgais i ailsefydlu sianelu cyfathrebu ac i ddatblygu parch at lais y Cyngor Tref o ran y broses gwneud cais cynllunio. Cynigiwyd gan y Cyng. Price. Eiliwyd gan y Cyng. Jenkins.

5818: Swyddfa ar gyfer Clerc y Dref: Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â swyddfa ar gyfer Clerc y Dref yn adeiladau'r Cyngor Sir yn y Cilgant. Mae'r Cyngor Sir wedi cynnig caban am y swm o £7.00 yr wythnos. Mae yna faterion yn ymwneud â diogelwch ac offer i'w hystyried.

Argymhellwyd gan y Cyng. Gwyn bod y swyddfa yn cael ei defnyddio am gyfnod prawf ac eiliwyd gan y Cyng. Bellamy. Clerc y Dref i edrych ar y gost o brynu cyfrifiadur clun a hefyd trosglwyddo'r llinell ffôn. Y Swyddog Technegol a'r Clerc i edrych ar y gost o wneud yr adeilad yn un diogel.

5819: Cofeb yr Arglwydd Rhys. Yn dilyn yr yl mae angen anfon llythyron allan at fudiadau'r Dref er mwyn sefydlu gweithgor. Er mwyn edrych ar y gwahanol syniadau o sut a lle i osod cofeb i'r Arglwydd Rhys. Penderfynwyd er mwyn datblygu polisi unedig ar gyfer datblygu a hyrwyddo Treftadaeth a Thwristiaeth yr Ardal, mai cynhyrchu Archwiliad Treftadaeth Hanesyddol Lleol yw'r cam hanfodol nesaf.

Wedi i'r pris gael ei roi roedd y Cyngor o blaid darparu arian cyfatebol i'r grant sydd ar gael o'r Cyngor Sir a ddisgwylir i fod oddeutu £800.00

5820: Rhybudd o Gynnig: ***Cynnig*: Archeb sefydlog rhif 7**

Mae hwn yn cael ei ddileu gan osod hwn yn ei le:-

"Mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor Llawn, mae trydedd aelodaeth yn golygu fod yna gworwm. Serch hynny, pe bai y nifer sydd yn y Cyngor yn cael ei leihau am ba reswm bynnag yna ni ellir cael cworwm o lai na thri."

Archeb sefydlog rhif 47

Yn lle "un hanner" rhoi "un trydydd".

Wnaeth y Cyng. Gwyn ddadlau yn erbyn y cynnig diwygiedig gan nodi gyda cworwm mor isel â 4 mae'r peryglon yn fwy na'r manteision.
Nodwyd gan y Cyng. Day bod anawsterau yn codi i'r Cyngor a'r Clerc pan nad oes cworwm yn y cyfarfod sy'n golygu na all y Cyngor weithio.
Nodwyd gan y Cyng. Bellamy y byddai'n well ganddi weld lleiafswm cworwm o 5 yn hytrach na 4 ar gyfer y Cyngor Llawn ac argymhellwyd gan y Cyng. Day y dylai'r cworwm mewn pwyllgorau fod yn 3.
Cytunodd y Maer fod hyn yn gyfaddawd addas.

Bydd y Rhybudd o Gynnig yn cael ei ddiwygio i ddarllen:

"Mewn unrhyw gyfarfod o'r cyngor llawn, mae trydedd o'r aelodaeth ac un arall yn gyfystyr â chael cworwm. Serch hynny pe bai rhif y Cyngor yn lleihau am ba reswm bynnag yna ni all y cworwm byth fod yn llai na thri."

Pleidleisiwyd ar y diwygiad gyda 6 aelod o blaid, yna pleidleisiwyd ar y Rhybudd o Gynnig gyda phawb yn unfrydol.

Y rhybudd o gynnig (Diwygiedig) "Mewn unrhyw gyfarfod o'r cyngor llawn, mae trydedd yr aelodaeth ac un arall yn golygu fod yna gworwm. Serch hynny pe bai y nifer sy'n bresennol yn lleihau am ba reswm bynnag yna ni all y cworwm byth â bod yn llai na thri." Wedi'i atodi i archeb sefydlog 7 Rhowch "un trydydd" yn lle "un hanner". Wedi'i atodi i archeb sefydlog 47.

Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins bod Archeb Sefydlog 6 yn cael ei hatal er mwyn dod â busnes i ben. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Gwyn.

5821: Cyfarfodydd a fynychwyd: Cynghorwyr Jenkins a Vaughan Jones wedi mynychu cyfarfod o'r gr p Towy Gwili. Mae rhai newidiadau i'r deddfau trwyddedu yn golygu bod yn rhaid i rai sy'n dal trwydded fod ar yr eiddo ac yn gyfrifol am beth bynnag sy'n digwydd yn y dafarn. Y Cyngor yn cael mwy o awdurdod i weithredu ar ymddygiad afreolus mewn tafarndai. Wnaeth y Cyng. Jenkins fynychu'r cyfarfod a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Gymunedol, a fynychwyd gan ACCT gyda'r cynlluniau ar gyfer adnewyddu'r Neuadd Ddinesig a gellir gweld y cynlluniau hyn yn y llyfrgell.

5822: Adroddiad y Maer: Darllenodd y Maer ei restr o apwyntiadau. Nodir y rhoddion oddi wrth y Meiri mewn parenthesis.

Mehefin 2003 18fed 6.pm	Agoriad Cornel y Tywysog Ffairfach gan Gyngor Bro Dyffryn Cennen
19eg 2.30	Cwrdd â Philip James N.T.
20fed 4pm	Cyfarfod gyda Wendy Walters, I. Jones a Emyr John
24ain 7pm	Cymdeithas Cymuned y Neuadd Ddinesig
26ain 9.30/ 11am/ 6pm	Cyfarfod Clerc y Dref/ H.Waghorn Gwarcheidwad Towy / Cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol
29ain 1pm / 2pm	Achlysur C n Defaid Cymru yn Aberglasne / Cerddorfa Tregib yn Mhenlan (£50)
GORFFENNAF 2003	
1af 6.30	Cyfarfod o'r Siambr Fasnach, Cymdeithas Ddinesig, Cyngor ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cambria
2il 7pm	Cyfarfodydd Pwyllgor
4ydd 7pm	Gefeillio
7fed 4pm	Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio gyda Mr Buckley ar safle' arfaethedig y Bragdy.
9fed 10.30	Goleuadau Nadolig Mr Bannister
10fed 7pm	Agor diwrnod agored y Clwb Garddio.(£50)
11eg 10.30/11.30	Cyfarfod Clerc y Dref/Cyfarfod Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cambria.
13eg 3.30	Gwasanaeth Dinesig 'All Saints' Rhydaman
15fed 10am/12.30pm	Cyfarfod gyda C.S.C & I.Jones parthed y Farchnad/ Cyfarfod gyda'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol, Susan Chilcott & Emyr John
12fed Gorffennaf	Barbiciw Tenovus (£50)

5823: Neuadd Sirol: Mae'n ymddangos bod yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol bellach yn mynd yn rhy fawr i'r eiddo. Pe baent yn gadael ar ddiwedd y les, mae angen i ni ystyried y posibiliadau yn y dyfodol fel canolfan dreftadaeth ar gyfer y dref gan fod yr adeilad yn ased gwerthfawr.

5824: Ymweliad Safle: Wnaeth y Cyngor Tref ymweld â safle arfaethedig y bragdy gyda Mr Buckley. Cytundeb cyffredinol yn cymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer cam 1af y datblygiad.

Llythyr at Gynllunio C.S.C. yn mynegi cymeradwyaeth y Cyngor i gam 1af y cynlluniau gan roi cefnogaeth y cyngor i'r cynigion. Y Maer i ysgrifennu at K. Phillips

Daeth y cyfarfod i ben am 10.pm.